# Gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd rhydd neu fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw

Mae gwybodaeth benodol ar gyfer gwahanol fathau o fwyd, gan gynnwys bwyd rhydd a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw.

## Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw

Mae bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw *(pre-packed)* yn cyfeirio at unrhyw fwyd sydd wedi'i roi mewn pecyn cyn ei werthu. Mae bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw pan:

- fo un ai wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y pecyn
- ni ellir ei newid heb agor neu newid y pecyn
- fo'n barod i'w werthu

Os yw enw'r cynnyrch yn cyfeirio'n glir at yr alergen, nid oes angen datganiad alergenau ar wahân, fel 'bocs o wyau' neu 'bag o bysgnau'.

## Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae bwyd bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) yn cael ei becynnu yn yr un lle ag y mae'n cael ei gynnig neu ei werthu i ddefnyddwyr a bydd yn y deunydd pecynnu hwn cyn i'r cwsmer ei archebu neu ei ddewis.

Gall gynnwys bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddewis eu hunain (er enghraifft, o uned arddangos), yn ogystal â chynhyrchion sy'n cael eu cadw y tu ôl i gownter a rhywfaint o fwyd sy'n cael ei werthu mewn safleoedd symudol neu dros dro.

Mae angen i'r label ddangos **enw'r bwyd** a'r rhestr gynhwysion gyda'r **14 alergen y mae'n ofynnol eu datgan yn ôl y gyfraith wedi'u pwysleisio**.

Gweler ein canllawiau labelu ar gyfer cynhyrchion bwyd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol (PPDS). Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys arferion gorau a chyngor rheoleiddio ar gyfer y busnesau bwyd hynny y mae'r gofynion labelu alergennau PPDS yn effeithio arnynt.

Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau'r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â'r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at

gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy’n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a’r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae’r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi’u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

## Bwydydd rhydd

Mae bwydydd rhydd yn cynnwys popeth sydd heb ei becynnu ymlaen llaw. Mae bwydydd sydd wedi'u lapio yn yr un man ag y maen nhw'n cael eu gwerthu hefyd yn cyfrif fel bwydydd rhydd. Os ydych chi'n darparu bwydydd rhydd, mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth am bob eitem ar y fwydlen sy'n cynnwys unrhyw un o'r 14 alergen.

Rheolau ar gyfer datgan alergenau mewn bwydydd rhydd:

- dylid darparu gwybodaeth am yr alergenau a ddefnyddir yn y bwydydd hyn
- dylai gwybodaeth am alergenau fod ar gael yn ysgrifenedig neu ar lafar gan staff
- gellir defnyddio logos neu symbolau ar y cyd â geiriau a rhifau ar fwydlenni

Mewn perthynas â bwydydd rhydd, mae'n rhaid i wybodaeth am alergenau fod

- ar gael yn hawdd i bob defnyddiwr
- yn gywir, yn gyson ac yn wiriadwy